# Perygl llifogydd o afonydd - Dwyrain

I'r dwyrain o Bwllheli mae Afon Erch yn llifo o bentref Abererch tua'r dref. Mae'r afon hon yn mynd i mewn i'r harbwr ar ei ochr ddwyreiniol, ar ôl mynd drwy'r giatiau llanw gerllaw Ffordd Abererch. Ym mhentref Abererch mae'r brif ardal perygl llifogydd o Afon Erch.

Mae strwythurau amddiffyn rhag llifogydd yn bodoli yma gan gynnwys arglawdd sy'n helpu i amddiffyn y pentref. Er hynny, mae perygl llifogydd yn dal i fodoli pan fydd y glannau yn gorlifo mewn digwyddiadau eithafol a allai ddigwydd yn amlach wrth i'r hinsawdd newid.

**Mae'r rhain yn opsiynau ychwanegol a fydd yn cael eu hystyried ar y cyd â'r prif opsiynau sy'n cyrraedd y rhestr fer.**

## Rheoli Llifogydd yn Naturiol

**Rheoli Llifogydd yn Naturiol yw pan ddefnyddir prosesau naturiol i leihau'r perygl o lifogydd drwy adfer troeon mewn afonydd, newid cyflymder llif y dŵr mewn afonydd a'r ffordd y caiff tir ei reoli fel y gall pridd amsugno mwy o ddŵr.**

## Mesurau Cydnerthedd Eiddo

**Gall mesurau Cydnerthedd Eiddo Rhag Llifogydd helpu i atal dŵr rhag llifo i adeilad neu gynorthwyo'r broses o adfer yn gyflym ar ôl llifogydd.**

## Carthu

**Carthu parhaus sylweddol ac ailbroffilio sianel yr afonydd i wella llifoedd a chapasiti.**

